# Odli

1. Cyflwyniad i odli (taflen A4).

2. Darllen y gerdd 'Gofyn i'r Môr'.  Yna, sôn am gerddi eraill sy'n odli:

caneuon pop/roc - **curiad yn bwysig**
mesurau gwahanol, e.e 'Gofyn i'r Môr'
cerddi hir fel soned,
cerddi byrrach fel limrig

3. Tasg - dod o hyd i be ydi 'englyn' (odl) a 'haiku' (dim odl)

Trafod y ffaith eu bod nhw'n syml ac felly'n hawdd eu cofio a dyna pam eu bod nhw mor boblogaidd ac wedi para mor hir, fel lot o ganeuon.

4.  Cyflwyno Hen bennill/pennill telyn:

Hen, hen fesur (does neb yn gwybod pryd ddaru nhw gychwyn ond maen nhw wedi bod o gwmpas ers canrifoedd). Ymysg yr enwocaf ydi **'Ar lan y môr'.** (You Tube: Elin Fflur
https://www.youtube.com/watch?v=aMrWnmLDhNM

Tasg: sgwennu pennill telyn yn cychwyn efo 'Ar lan y môr...'

Pennill trist efallai? Neu un hapus? Neu pennill hapus yn y ddwy eu dair linell gyntaf ac yn drist yn yr olaf? Nhw i ddewis.
Ymestyn rhai: beth am 'Ar lan y môr roedd (tywydd, cychod sgota, tawelwch) / Ar lan y môr bydd (môr yn codi, sbwriel/plastig, sgerbydau pysgod...  ?

5. Trafod y cerddi hwyrach, yna **dewis teitl** da i gerdd (Llew / Môr)

**Hen bennill/pennill telyn:**

4 llinell.
y ddwy linell gyntaf yn odli
Y ddwy linell olaf yn odli

Ar Lan y Môr

Ar lan y môr mae rhosys cochion
Ar lan y môr mae lilis gwynion
Ar lan y môr mae 'nghariad inne
Yn cysgu'r nos a chodi'r bore.

Llawn yw'r môr o swnd a chregyn
Llawn yw'r wy o wyn a melyn
Llawn yw'r coed o ddail a blode
Llawn o gariad merch wyf inne.

Mor hardd yw'r haul yn codi'r bore
Mor hardd yw'r enfys aml ei liwie
Mor hardd yw natur ym Mehefin
Ond harddach fyth yw wyneb Elin.

# Odli

Pan mae'r sŵn ar ddiwedd dau air yn debyg, rydan ni'n dweud eu bod nhw'n odli.

Dyma lond llaw o eiriau sy'n odli


stryd → byd
stamp → lamp
trwyn → llwyn
gwair → ffair

a dyma eiriau sydd **ddim yn odli**:

llaw → llanc
crys → croen
Nain → saim
troed → gwaed

★ Mae odli yn ei gwneud yn haws cofio penillion a dyna pam bod y rhan fwyaf o ganeuon pop a roc yn defnyddio geiriau sy'n odli.

**Dyma ddau hen bennill sy'n odli:**



Mi welais Jac y **Do**
yn eistedd ar ben **to,**
het wen am ei **ben**
a dwy goes **bren**
"Ho-ho-ho-ho-ho-ho!"

Hen fwnci bach o **Lŷn**
a aeth i dynnu'i **lun;**
edrychodd yn **syn**
a chwarddodd fel **hyn:**
"Hi-hi-hi-hi-hi-hi!"

DA DI ODLI!

# Teitl

Pwysigrwydd Teitl cerdd:

> **Y Llew**
> Weithiau mae'n rhuo yn uchel
> Weithiau mae'n cysgu drwy'r pnawn
> A phan mae o'n dod ar d'ôl di
> Mae'n rhaid i ti redeg go iawn!

Mae 'Y Llew' yn deitl da i hwn.

Ond mae 'Y Môr' yn deitl llawer iawn gwell gan ei fod yn gwneud i ni feddwl a gweld dau beth yn lle un.

> **Y Môr**
> Weithiau mae'n rhuo yn uchel
> Weithiau mae'n cysgu drwy'r pnawn
> A phan mae o'n dod ar d'ôl di
> Mae'n rhaid i ti redeg go iawn!

Pa gerdd fysach chi isio i mi ddarllen i chi pe bai gen i lyfr o farddoniaeth:
**Y Ddafad? Y gwynt mawr? Yr hen ddyn?**
**Y Llyffant Pinc yn Slupars Nain?**

Weithiau dewis geiriau o'r gerdd ei hun?

# Sgwennu Hen Bennill

Meddyliau am bethau sydd ar lan y môr, sydd yn odli. Dyma i ti rai i gychwyn. Defnyddia dy eiriau di a'r rhai isod i sgwennu'r pennill yn iawn ar waelod y dudalen.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **ewyn** | **cerrig** | **melyn** | **lleisiau** | **crancod** |
| **pysgod** | **tonnau** | **gwylanod** | **chwarae** | |
| **tywod** | **sbwriel** | **plastig** | **tawel** | |


## 'Ar Lan y Môr'

Ar lan y môr mae ............................................

Ar lan y môr mae ............................................

Ar lan y môr mae ............................................

..........................................................................



# Gofyn i'r Môr



Pwy sy'n cofio'r capten
Yn gweiddi ar ei griw,
A'r awyr ddu a'r tonnau
Ers dyddiau yr un lliw?
Pwy sy'n cofio golau'r wawr
Fel gwaed ar ôl i'r llong fynd lawr?
Gofyn i'r môr. Y môr.

Pwy sy'n cofio'r mynydd
Yn taflu cysgod hir,
Sydd wedi hen ddiflannu
Ers oesoedd maith yn wir,
Lle nawr nad oes ond traeth hir, glân
O gregyn gwyn a thywod mân?
Gofyn i'r môr. Y môr.



Pan fydd y gwres yn codi
Ac eira ym mis Mai,
A phobl hyd y ddaear
Yn flin, yn taflu bai?
Pwy fydd yn crwydro dros y byd
Yn dal i fynd a dod o hyd?
Y môr.
Y môr.

*Mei Mac*

# Sgwennu Hen Bennill

Meddyliau am bethau sydd ar lan y môr, sydd yn odli.
Defnyddia dy eiriau, (a dy ddychymyg!) i sgwennu'r pennill neu benillion isod:

## 'Ar Lan y Môr'

Ar lan y môr mae ---------------------------------------------
Ar lan y môr mae ---------------------------------------------
Ar lan y môr mae ---------------------------------------------

---------------------------------------------------------------------------------

Ar lan y môr mae ---------------------------------------------
Ar lan y môr mae ---------------------------------------------
Ar lan y môr mae ---------------------------------------------

---------------------------------------------------------------------------------

